

TÂN TŴR GRENFELL



Y ddelwedd a ddarparwyd gan Natalie Oxford, tân Tŵr Grenfell, 14 Mehefin 2017, trwy Wikimedia Commons (CC BY 4.0)

Ar 14 Mehefin 2017, dechreuodd tân yn Nhŵr Grenfell yng Ngogledd Kensington, Llundain, gan ladd o leiaf 72 o bobl. Hwn oedd y tân gwaethaf mewn adeilad preswyl ers yr Ail Ryfel Byd.

Digwyddodd y drychineb oherwydd gwaith adnewyddu a wnaed ar Dŵr Grenfell, sef rhywbeth a gynigiwyd gan Sefydliad Rheoli Tenantiaid Kensington a Chelsea – endid preifat a oedd yn rheoli'r Tŵr ar ran y cyngor. Dro ar ôl dro, anwybyddodd y Sefydliad Rheoli rybuddion gan y preswylwyr a Grŵp Gweithredu Grenfell y gallai'r gwaith adnewyddu fod yn beryglus, a dewisodd roi elw uwchlaw diogelwch trwy ddewis defnyddio cladin rhatach. Yn 2016, cafodd Tŵr Grenfell ei ailgladio gyda chladin rhad, hynod losgadwy. O ganlyniad, pan ddechreuodd tân mewn fflat ar y pedwerydd llawr, dim ond 33 munud a gymerodd i gyrraedd to'r Tŵr.

Deilliodd y marwolaethau o ddifaterwch y Sefydliad Rheoli ynglŷn â diogelwch tân. Nid oedd gan y Sefydliad Rheoli unrhyw gynlluniau ar gyfer symud preswylwyr agored i niwed o'r adeilad; nid oedd drysau'r Tŵr yn bodloni safonau diogelwch tân; ac nid oedd asesydd tân y Sefydliad Rheoli yn meddu ar gymwysterau digonol i weithio mewn bloddyrau fel Grenfell. Darganfu'r ymchwiliad swyddogol, a gynhaliwyd yn 2024, y gellid bod wedi osgoi'r holl farwolaethau – sef cyfanswm o 72.

Want to know more?
grenfellunited.org.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Roedd tân a ddigwyddodd yn 2009 yn Lakanal House – sef adeilad aml-lawr tebyg yn Llundain – eisoes wedi dangos pa mor beryglus y gallai cladin allanol fod. Bu farw chwech o bobl ac anafwyd ugain. Pan grybwyllodd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ddiogelwch Tân bryderon ynglŷn â chladin a risgiau tân, diystyriwyd y pryderon hynny gan swyddogion a gweinidogion.

Roedd gweithgynhyrchwyr y cladin a ddefnyddiwyd ar Grenfell yn gwybod ei fod yn hynod losgadwy ac yn anaddas ar gyfer adeilad preswyl aml-lawr.

Ar hyn o bryd, mae ymchwiliad yn cael ei gynnal ar 19 o sefydliadau a 58 o bobl oherwydd eu rôl yn y drasiedi.

WHY WE NEED HILLSBOROUGH LAW

“Ni ddylai teuluoedd orfod ymladd yr union sefydliadau sydd i fod i'w gwarchod. Mae Cyfraith Hillsborough yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cael cyfiawnder ar ôl unrhyw drasiedi – ac er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu”

Grenfell United

“Mae hi wedi bod mor hawdd i asiantaethau cyhoeddus a phreifat osgoi atebolrwydd a chraffu. Trwy sefydlu dyletswydd gonestrwydd, bydd Cyfraith Hillsborough yn atal hyn rhag digwydd, bydd yn ein helpu i ddysgu ar sail methiannau a bydd yn sicrhau y caiff goroeswyr a theuluoedd mewn profedigaeth gymorth priodol”

Natasha Elcock, Cadeirydd of Grenfell United